Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Ffocws allweddol yr aseiniad yma yw'r astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, hynny yw, yr achos critigol. Mae strwythur yr aseiniad yma yn cynnwys trafod cyd-destun yr achos critigol, gan gynnwys yr ysgol a'r dosbarth lle digwyddodd, gan ddilyn â'r strategaethau arsylwi sydd wedi cael ei defnyddio. Yn ychwanegol, byd yr achos critigol yma yn cysylltu â Phedwar Diben Donaldson ac yn cysylltu'r achos critigol hefyd gydag adolygiad llenyddiaeth. Wedi hynny, bydd yr achos critigol yn cael ei adfyfyrio a gwerthuso wrth edrych ar y camau nesaf, yn ogystal â dod i gasgliad terfynol.

I bwrpas yr aseiniad yma, mae'n hollbwysig i allu diffinio beth yw 'achos critigol'. Mae achosion critigol yn derm anodd i ddiffinio, oherwydd mae llawer o ddehongliadau yn ôl gwahanol ysgolheigion (Joshi, 2018). Pwysleisir y syniad yma gan Tripp (2012, tud. 44) "... a critical incident is an interpretation of the significance of an event. To take something as a critical incident is a value judgment we make, and the basis of that judgment is a significance we attach to the meaning of the incident". Felly, mae achos critigol yn yr enghraifft yma, yn dibynnu ar ddehongliadau a barnau pob unigolyn a'r arwyddocâd yr ystyr iddyn nhw.

Yn ychwanegol, mae'n bwrpasol ac arwyddocaol i allu dadansoddi achos critigol. Mae dadansoddiad o achosion critigol yn helpu athrawon i wybod mwy am sut maen nhw'n addysgu. Mae hefyd yn helpu iddynt gwestiynu eu harfer addysgu eu hunain sy'n eu galluogi i ddatblygu'n broffesiynol. Prif bwrpas dadansoddi achos critigol yw nodi arferion da o addysgu mae athro neu athrawes yn mabwysiadu (Joshi, 2018).

Arsylwi

Sail yr aseiniad yma ydy'r achos critigol, a ymchwiliodd ar ffurf arsylwi. Yn ôl canllawiau BERA (2018, tud. 21) "researchers should recognise the entitlement of both institutions and individual participants to privacy, and should accord them their rights to confidentiality and anonymity". Felly, bydd yr aseiniad yma yn cyfeirio at yr ysgol lle digwyddodd yr arsylwi fel 'Ysgol X', a'r disgybl penodol sydd wedi'i gynnwys yn yr arsylwi fel 'Disgybl X'.

Mae Ysgol X yn ysgol Uwchradd (ystod oedran 11-19), sydd wedi'i leoli yn ardal Abertawe. Mae yna 780 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn iaith cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae'r cyfuniad merched a bechgyn yn gymysg yn yr ysgol.

Mae'n bwrpasol tynnu sylw at y ffaith bod 19.7% o ddisgyblion (yn ôl gweithred Ysgol X) ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn 2018, fodd bynnag dim ond 1.8% o'r achosion sydd wedi'u datgan. Mae'r ystadegau yn ôl Ysgol X yn uchel i gymharu â'r awdurdod lleol ac ar draws Cymru, gan fod yr ystadegau yn dangos bod 17.4% o ddisgyblion gydag AAA ar gyfartaledd yn yr awdurdod lleol, tra bod 14.4% o ddisgyblion gydag AAA ar gyfartaledd yng Nghymru (Fy Ysgol Leol). Yn ychwanegol, mae'r ystadegyn o ddisgyblion sydd yn cael prydau ysgol am ddim yn Ysgol X yw 10.6% yn 2018, tra bod ystadegyn yr awdurdod lleol yn dangos 18.3% ar gyfartaledd, yn ogystal ag ystadegau cyfartalog Cymru sef 16.6%.

Mae'r achos critigol a fydd yn cael ei drafod yn fwy manwl yn seiliedig ar ddisgybl X. Mae disgybl X yn fachgen o flwyddyn 8 (ystod oedran 12-13), ac mae'n astudio Cyfnod Allweddol 3. Digwyddodd yr achos critigol yma o fewn dau ddosbarth gwahanol, dwy wythnos ar wahân.

Methodoleg

Yn nhermau methodoleg, mae'r achos critigol yw pwynt canolog yr aseiniad yma. Datgan Tripp (2012) bod achosion critigol â dau brif arferion, sef: maent yn ffordd wych o ddatblygu dealltwriaeth a rheolaeth gynyddol o farn broffesiynol, ac maent hefyd yn fodd i ddod o hyd i ffocws ar gyfer ymchwil gweithredu yn yr ystafell ddosbarth. Ar y llaw arall, mae yna anfanteision o ddefnyddio achosion critigol fel math o ymchwil. Gan adlewyrchu ar y diffiniad o achosion critigol, mae'n glir bod achosion critigol yn dibynnu ar ddehongliadau unigol. Felly, sut gall un dehongli beth yw achos critigol ac os yw'n ddilys? Yna mae Tripp (2012) yn mynd ymlaen i ymhelaethu ar sut mae dau gam i greu achos critigol, sef: digwyddiad sy'n cael ei arsylwi a'i gofnodi ac yna bod y digwyddiad hwnnw'n cael ei ddadansoddi. Defnyddir y broses hon a ddisgrifir gan Tripp yn yr achos hwn, a ymhelaethir arni.

Yn gyntaf i greu achos critigol, gan bwysleisiodd Tripp (2012) yw arsylwi. Trwy gydol dargludol yr ymchwil yma, roedd gwahanol strategaethau arsylwi wedi cael ei defnyddio, sydd wedi profi i fod yn fuddiol ac yn effeithiol. Dywed Cohen et al. (2011) bod gan y dull o arsylwi nodweddion amlwg, oherwydd mae'n cynnig y cyfle i gasglu data fyw, sy'n caniatáu'r ymchwiliwr i edrych ar beth sy'n digwydd yn union; mae'n ffurf o gasglu data gwreiddiol. Mae dulliau arsylwi yn offer pwerus ar gyfer cael mewnwelediad i sefyllfaoedd. Er mwyn pwysleisio hyn, gall arsylwi caniátau i'r ymchwilydd ffocysu ar ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd, yn ogystal ag ymddygiadau myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth. Mae arsylwadau yn

galluogi'r ymchwilydd i gasglu data ar: y lleoliad corfforol (yr amgylchedd ffisegol), y lleoliad dynol (trefniadaeth pobl), y lleoliad rhyngweithiol (y rhyngweithiadau sy'n digwydd), a gosodiad y rhaglen (yr adnoddau a'r arddulliau pedagogaidd).

Ar ben hynny, mae yna wahanol fodelau arsylwi, er enghraifft: sosiogramau, plentyn targed a samplau o amser a digwyddiad a.y.b. Y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr achos hwn oedd arsylwi di-gyfranogwyr yn ogystal â chofnodion ysgrifenedig. Mae arsylwi di-gyfranogwyr fel arfer yn cael i ddefnyddio yn ymchwil ansoddol oherwydd mae'n cael i ddefnyddio i gychwyn gwrthrychedd (Caldwell ac Atwal, 2005). Er hyn, dywedodd Basit (2010) mae'r ymchwilydd yn aros yn ddatgysylltiedig ac yn cymryd cam yn nôl o'r arsylliad. Felly, efallai y bydd yn anodd sicrhau canlyniadau cywir oherwydd bydd yr arsyllwr yn gwylio o bellter. Ar y llaw arall, gall defnyddio arsylwi fel math o ymchwil hefyd gael effaith negyddol ar y canlyniadau. Mae'n bosib gall presenoldeb yr ymchwilydd yn newid y sefyllfa oherwydd efallai y bydd cyfranogwyr am osgoi, creu argraff, cyfarwyddo, gwadu neu ddylanwadu ar yr ymchwilydd. Gelwir hyn yn ôl Cohen et al (2011, tud. 189) yr effaith 'Hawthorne'.

Yn ychwanegol, cofnodwyd yr arsylliad gyda chofnod ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau. Mae yna lawer o resymau cadarnhaol trwy ddefnyddio cofnodion ysgrifenedig fel nodiadau i gofnodi arsylwadau. Yn ystod yr arsylwi, mae cymryd nodiadau yn galluogi'r ymchwilydd i ysgrifennu yn union beth sy'n digwydd bryd hynny. Mae'n ddull agored o recordio, felly gall ddarparu cryn dipyn o wybodaeth. Yn ogystal, nid oes angen paratoi, sy'n ei gwneud hi'n haws ac yn cymryd llawer o amser i'r broses. Ar y llaw arall, gall cymryd nodiadau fod â'i wendidau. Mae posibilrwydd tra bo'r ymchwilydd yn cymryd nodiadau, y gallent fethu arsylwi pwysig, felly, mae rhaid i'r ymchwilydd ysgrifennu neu deipio'n gyflym (Berry, 2004).

Pedwar Diben

Gan gyfeirio at yr achos critigol a ddigwyddodd yn Ysgol X, mae'n bwysig nodi roedd yr un math o achos critigol wedi digwydd ddwywaith wythnosau ar wahân gan gynnwys disgybl X. Digwyddodd yr achos critigol gyntaf ar y chweched o Fedi, yn ystod gwers Addysg Grefyddol a oedd y wers pumed o'r ddydd. Ar ddechrau'r wers, gofynnodd yr Athrawes (Athrawes A) y cwestiwn "Pe gallech chi fod yn unrhyw beth yn y byd, beth fyddai hwnnw?" Yn dilyn y cwestiwn yma, roedd yn amlwg bod y dosbarth yn defnyddio'r polisi dwylo i fynnu i ateb cwestiynau. At hyn, rhoddodd disgybl X ei law i fynnu i ateb y cwestiwn, a dewisodd yr athrawes disgybl X i rannu ei ateb. Atebodd disgybl X "trên neu chicken nugget". Yn dilyn hyn, gan gyfeirio at Atodiad 1a, ar y chweched ar hugain o Fedi yn ystod gwers Mentro a oedd y wers gyntaf o'r ddydd, digwyddodd yr ail achos critigol. Eto, ar ddechrau'r wers, gofynnodd yr Athrawes (Athrawes B) i'r disgyblion "yn y pen draw, hoffwch weithio fel…?"

Eto, roedd yr un strwythur i ateb cwestiynau wedi cael ei rhoi yn lle, ac yna, atebodd disgybl X “dinosaur neu drên”.

Wrth ddisgrifio’r achos critigol yma, mae’n amlwg bod yna patrwm penodol yn ateb disgybl X, yn enwedig ail-adroddodd yr ateb ‘trên’ ddwywaith. Awgryma’r atebion gan ddisgybl X nad yw’n cymryd y cwestiwn o ddifrif oherwydd nad roedd wedi rhoi ateb rhesymol i Athrawes A nac i Athrawes B. Fodd bynnag, mae llawer o resymau bosib gall hyn wedi digwydd, a thrafodwyd yn yr adran adolygiad llenyddiaeth.

Cysyllta’r achos critigol yma â dau o Bedwar Diben Donaldson (2015). Nod y pedwar diben yw sicrhau bod disgyblion yn ysgolion ar draws Cymru yn datblygu yn gyffredinol i fod yn ddinasyddion llwyddiannus. Y diben gyntaf mae’r achos critigol yn cysylltu â, yw: “y dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes” (Donaldson, 2015, tud.31). Mae’r diben hyn yn cynnwys dysgwyr sydd allu cyfathrebu’n effeithiol, a wnaeth disgybl X yn llwyddiannus trwy ateb y cwestiwn a ofynnwyd gan Athrawes A a B. Yr un nesaf, yw: “yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas” (Donaldson, 2015, tud.31). Yn amlwg, roedd disgybl X yn ddigon hyderus i rannu ateb ac i gymryd rhan yn y drafodaeth yn y dosbarth. Mae’r diben hyn yn amlwg yn cysylltu â disgyblion hyderus, a ddangoswyd gan ddisgybl X. Unwaith eto, roedd gan ddisgybl X yr hyder i allu ateb y cwestiwn. Yn ychwanegol, mae’r diben hyn yn ddisgyblion i allu creu perthnasoedd positif sydd yn gysylltiedig â pharch. Portreadir hyn gan ddisgybl X, oherwydd credwyd bod eisiau perthynas positif â’r athrawon i allu ateb yn y modd yma. Roedd yn glir oedd disgybl X yn teimlo’n ddigon cyfforddus i allu ateb fel hyn.

Adolygiad llenyddiaeth

Gan adlewyrchu ar eiriau Tripp (2012), yr ail gam o greu achos critigol yw ddadansoddi’r digwyddiad. Felly, i bwrpas yr aseiniad yma, mae’n hanfodol i allu tynnu sylw at lenyddiaeth ysgolheigion perthnasol sy’n cysylltu â’r achos critigol. Cyfeiriwyd at ddau wahanol fath o lenyddiaeth yn benodol, sef y cysyniad o’r broffwydoliaeth hunangyflawnol yn ogystal â damcaniaethau amgen, a’r syniad o addysg ac amddifadedd.

I ddechrau, mae’n hanfodol i drafod term o’r enw, ‘broffwydoliaeth hunangyflawnol’, a chrëwyd gan y cymdeithasegydd Robert Merton ym 1968. Mae’r broffwydoliaeth hunangyflawnol yn golygu bod yn y dechrau, mae yna ddiffiniad ffug o’r sefyllfa sydd yn cael ei greu, fodd bynnag mae’r cysyniad ffug yma yn troi’n wir yn y diwedd (Price, 2011). Yn ôl White ac Edwin (2000), mae'n dod yn fwyfwy amlwg, o dan rai amodau, bod disgwyliadau athrawon yn broffwydoliaethau hunangyflawnol. Hynny yw, gall yr hyn y mae athrawon yn ei ddisgwyl gan fyfyrwyr effeithio ar berfformiad y myfyrwyr - mewn rhai sefyllfaoedd. Yn ôl

Price (2011), mae hyn yn cysylltu â’r ‘effaith Pygmalion’, sy’n hefyd yn cael ei adnabod fel yr ‘effaith Rosenthal’.

Crëwyd yr effaith Pygmalion ym 1968 gan Robert Rosenthal a Lenore Jacobson. Roedd Rosenthal a Jacobson wedi cynnal prawf deallusrwydd ar blant o ysgol gynradd yn San Francisco. Dywedodd Rosenthal a Jacobson i’r athrawon bod pwrpas y prawf yma oedd mesur IQ y disgyblion ac yn ail bydd yn rhagweld y 20% o ddisgyblion a oedd tebygol i wneud y cynnydd mwyaf yn y flwyddyn academaidd gerllaw. Yna dywedwyd wrth yr athrawon pwy fyddai’r prif wellwyr a ragwelir. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, wyth mis yn ddiweddarach, ailadroddwyd y prawf deallusrwydd eto, a dangosodd y canlyniadau fod yr 20% o blant a oedd wedi rhagweld y byddai'n gwella fwyaf, wedi gwneud hynny mewn gwirionedd. Fe wnaethant ddangos, ar gyfartaledd, gynnydd o 12 pwynt IQ ar y prawf, o'i gymharu â chynnydd o ddim ond 8 pwynt ar gyfer y plant eraill (Price, 2011).

Mae’n bwysig i nodi na ddefnyddiwyd unrhyw ganlyniadau o unrhyw brawf i ragweld pwy fyddai'r perfformwyr gorau. Yn lle, dewiswyd y plant lwcus y dywedwyd wrth yr athrawon y byddai’r wellwyr ar hap a rhoddwyd y label hwn iddynt fel mater o siawns. Mae'r astudiaeth hon yn dangos y gall y label a roddir i chi, a'ch rhyngweithio ag eraill sy'n ymwybodol o'r label hwnnw, gael effaith sylweddol ar y canlyniadau rydych chi'n eu cyflawni. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed pan nad ydych chi'n gwybod eich bod chi hyd yn oed wedi cael y label hwnnw (Price, 2011).

Yn gysylltiedig â’r effaith Rosenthal, ceir effaith Golem. Enwyd yr effaith Golem gan Babad, Inbar, a Rosenthal ar gyfer y fersiwn negyddol o’r broffwydoliaeth hunangyflawnol. Yn ôl Oz ac Eden (1994), mae’r effaith Golem yw'r effaith Pygmalion i'r gwrthwyneb; mae disgwyliadau rheolwyr / awdurdod isel yn cyfyngu cyflawniad israddol. Fodd bynnag, gall effaith Golem arwain at ddau ganlyniad. Gall disgwyliadau isel achosi naill ai lleihad yn perfformiad israddol neu gynnydd yn berfformiad sydd yn llai na beth gallyn nhw gyflawni.

Mae’r effaith Pygmalion a’r effaith Golem yn adlewyrchu elfennau o’r achos critigol ac yn darparu rheswm posibl pam y digwyddodd yr achos critigol yn y lle cyntaf. Yn amlwg, gellir effaith Golem gael ei fabwysiadu mewn lleoliad ysgol, lle os yw disgwyliadau athrawon o ddisgybl / disgyblion yn isel, yna mae'r disgybl / disgyblion yn fwy tebygol o fabwysiadu'r disgwyliadau hynny yn llythrennol. Felly, gallai hyn fod pam y rhoddodd disgybl X ateb amhriodol ac nad oedd yn synhwyrol i'r cwestiynau a gofynnwyd gan Athrawes A ac Athrawes B. Ymhellach, gallai'r disgwyliadau isel posibl hyn ddeillio o'r tu allan i amgylchedd yr ysgol, ac o amgylchedd y cartref. Gallai'r un effaith ddigwydd os oes gan rieni / gofalwyr y disgyblion ddisgwyliadau isel ohonynt.

Ar y llaw arall, mae’r effaith Pygmalion a’r broffwydoliaeth hunangyflawnol gallu bod yn beth positif, er bod yr effaith Golem yw’r effaith negyddol. Mewn lleoliad ysgol, gallai disgwyliadau uchel athrawon o ddisgyblion eu hannog a'u cefnogi i gyflawni graddau gwell a chyrhaeddiad addysgol llwyddiannus. Eto, gallai'r un effaith ddigwydd yn amgylchedd y cartref, lle byddai'r disgyblion yn mabwysiadu'r disgwyliadau uchel hyn ac i bob pwrpas, yn gwneud yn well yn yr ysgol. Felly, yn ôl Price (2011) gall bod â chred gadarnhaol yn ein gallu, hyd yn oed os nad oes cyfiawnhad llwyr iddynt (nid dim ond beth bynnag), ein helpu i sicrhau canlyniadau llawer gwell na rhywun sydd â chred negyddol neu nad yw'n fuddiol am eu gallu ac nad yw hyd yn oed ceisiwch.

Yn dilyn, gellir dehongli fod yna cysylltiadau rhwng yr achos critigol â disgwyliadau uchel a dyheadau ac amddifadedd. Mae angen archwilio’r posibilrwydd bod hwn wedi cael effaith ar ddisgybl X i allu dadansoddi’r achos critigol. Yn gyntaf, mae’n hanfodol i allu diffinio a ddeall yn union beth yw amddifadedd. Yn ôl geiriadur Caergrawnt (2019), mae amddifadedd yn golygu: “a situation in which you do not have things or conditions that are usually considered necessary for a pleasant life”. Felly, mae teuluoedd sy’n dioddef ag amddifadedd yn brwydro i gael y nodweddion angenrheidiol am fywyd boddhaol.

Gan gyfeirio eto at wefan Fy Ysgol Leol, mae’n amlwg roedd 10.6% o ddisgyblion yn Ysgol X yn cael Prydau Ysgol am Ddim. Er bod yr ystadegyn yma yn llai na chyfartaledd Cymru a’r ardal leol, mae’n dal i fod yn degfed o’r ysgol gyfan. Mae’n ffaith wybyddus fod yna cysylltiad rhwng prydau ysgol am ddim ac amddifadedd, sydd yn awgrymu bod yna ddisgyblion yn Ysgol X sydd yn dioddef ag amddifadedd.

Mae'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi yn ddryslyd iawn, ac yn cael ei effeithio gan lawer o elfennau gwahanol. Yn ôl Chowdry et al. (2010), mae plant sydd yn cael ei fagu o fewn teuluoedd llai ffodus yn gadael ysgol â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol. Gan fod cymwysterau addysgol yn benderfynydd cryf o fywyd diweddarach a chyfleoedd, maent wedi creu bylchau enfawr o fewn gyrhaeddiad addysgol sydd wedi creu cyfraniad ffactor i batrymau symudedd cymdeithasol, sydd o bryder cyhoeddus cryf.

Ymhellach, darganfuwyd Chowdry et al. (2010) gall y llwybrau lle gall anfantais ddylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol fod yn eang iawn. Yn ôl yr astudiaeth a gynhaliwyd gan wahanol ddamcaniaethwyr megis y, ‘British Cohort Study’ (Elliot a Shepherd, 2006) a’r, ‘the Avon Longitudinal Study of Parents and Children’ (Prifysgol Bristol) mae eu canfyddiadau yn awgrymu bod y dyheadau, agweddau ac ymddygiadau rhieni a phlant o bosibl â rhan bwysig i'w chwarae esbonio pam mae plant tlawd fel arfer yn gwneud yn waeth yn ysgol. Mae plant o gefndiroedd tlotach yn llawer llai tebygol o gael amgylchedd dysgu cyfoethog na phlant o gefndiroedd mwy ffodus. Hefyd, tra bod llawer o brofiadau negyddol o addysg a brofir gan

bobl ifanc o gefndiroedd gwael, eisoes wedi gosod gan lencyndod cynnar, mae mynediad at gyfrifiadur a'r rhyngrwyd, ynghyd â phrofiadau pobl ifanc yn eu harddegau o fwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau ymddygiad yn yr ysgol yn ymddangos bod ganddo rôl i'w chwarae.

Gan edrych ar safbwynt gwahanol, gellir cysylltu'r broffwydoliaeth hunangyflawnol gyda dylanwad y rhieni. Cynhaliwyd astudiaeth gan Tomer ac Agrawal (2014) i archwilio'r cysylltiadau rhwng amddifadedd rhieni a sut mae hyn yn dylanwadu ac effeithio hunanhyder eu llencyndod. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y gellir dweud bod amddifadedd rhieni yn effeithio'n sylweddol ar hunanhyder llencyndod. Y plant nad oedd gan eu rhieni unrhyw amddifadedd oedd â'r hunanhyder uchaf tra bod gan rieni'r plant a ddioddefodd amddifadedd yr hunanhyder isaf. Fel y dywedwyd eisoes, mae yna berthynas rhwng y broffwydoliaeth hunangyflawnol a chyrhaeddiad addysgol.

Er hynny, mae yna strategaethau sydd wedi cael ei rhoi yn le i godi disgwyliadau uchel am bob dysgwyr a bod pawb yn cael cyfle cyfartal o gyflawni eu disgwyliadau uchel. Mae'r adroddiad 'Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru', gan Lywodraeth Cymru yn ceisio nodi'r hyn y gall ysgolion, gan gyd-weithio gyda'u rhieni / gofalwyr, i gefnogi pob unigolyn o gefndiroedd amddifadus ac i greu cyfleoedd posib iddyn nhw (Llywodraeth Cymru, 2014). Prif nod y ddogfen yw sicrhau bod disgyblion yng Nghymru sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol.

Gan adlewyrchu ar y pwyntiau ynglŷn â'r berthynas rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol, gellir dadlau mae agwedd disgybl X yn adlewyrchu rhai o'r meysydd yma. Gan gyfeirio at atodiad 1b, doedd disgybl X ddim wedi rhoi ateb rhesymol. Felly, awgrymwyd dydy disgybl X ddim yn cymryd ei dyfodol yn ddifrifol o gwbl, a gallai'r agwedd hwn tuag at fywyd gallu effeithio ei chyrhaeddiad addysgol, er enghraifft, pan fydd yn dechrau Cyfnod Allweddol 4 ac yn dechrau ei TGAU, yn ogystal â'i chyfleoedd yn y dyfodol.

Ar y llaw arall fel y nodwyd uchod, mae yna strategaethau sydd wedi cael ei rhoi yn le i gynnig cymorth i'r disgyblion sydd yn y sefyllfa yma. Felly, er bod yna cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol, nid yw bob amser yn wir fod pob disgybl sy'n dioddef o amddifadedd yn cyflawni cyrhaeddiad addysgol aflwyddiannus, gan fod cefnogaeth ar gael i geisio helpu'r disgyblion hyn i gyflawni'r cyfleoedd gorau mewn bywyd.

Adfyfyrio / Gwerthuso a Chamau Nesaf

Yn ôl Loughran (1996, tud.12), mae adfyfyrio yn golygu "the deliberate and purposeful act of thinking which centres on ways of responding to problem situations". Felly, mae myfyrio yn gysylltiedig â meddwl a bernir ei fod yn cynnwys prosesau gwybyddol 'canfod problemau' a

‘datrys problemau’ (Leitch a Day 2000). Trwy gydol y broses arsylwi, nodais bedwar digwyddiad critigol gwahanol. O hyn, defnyddiais y taflenni Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) i allu adfyfyrio ar y digwyddiadau critigol, a gofnodir yn Atodiadau 5-8.

Er bod llawer o fodelau adfyfyrio, byddaf yn defnyddio cylch adfyfyriol Gibbs, sydd yn fodel poblogaidd ar gyfer adfyfyrio (McGregor a Cartwright 2011), ac sydd hefyd â'r un math o fformat â'r ffurflenni BWA a ddefnyddiais i adlewyrchu ar yr achosion critigol. Yn ôl y fodel adfyfyrio yma, mae yna chwe chwestiwn byddaf yn trafod, sef: disgrifiad, teimladau, gwerthusiad, dadansoddiad, casgliad a chynllun gweithredu. Mae manteision y model hwn yn ôl Hargreaves a Page (2013) yn cynnwys ei fod yn syml: nid yw'r cwestiynau'n anodd a gellir eu cymhwyso'n hawdd mewn mwy neu lai mewn unrhyw sefyllfa. Yn ychwanegol, mae’r fodel hyn yn cynnwys gwerthuso a chynllunio gweithredu, sy’n hollbwysig i adfyfyrio’n effeithiol.

Yn ystod yr adlewyrchiad, byddaf yn adfyfyrio ar beth ddigwyddodd i greu’r achos critigol. Gan gyfeirio at Atodiad 1a, gofynnodd Athrawes B i'r dosbarth “yn y pen draw, hoffwch weithio fel…?” Rhoddodd disgybl X ei law i fyny i ateb y cwestiwn, a dewisodd Athrawes B ef i rannu ei feddyliau. Dyma pryd y nododd X “dinosaur neu drên”. Fodd bynnag, digwyddodd yr un math o ddigwyddiad bythefnos yn flaenorol, lle gofynnodd Athrawes A “pe gallech chi fod yn unrhyw beth yn y byd, beth fyddai hwnnw?”. Yna atebodd disgybl X “trên neu chicken nugget”. Mae’r adran Pedwar Diben yn yr aseiniad yn disgrifio’r achos critigol yn fwy manwl.

Ymhellach, pan oedd yr achos critigol yn digwydd, fel y dywedais yn Atodiad 5, teimlais amrywiaeth o deimladau, gan gynnwys siomedig oherwydd bod disgybl X yn meddwl ei fod yn ateb priodol i'w rannu yn yr ystafell ddosbarth. Ond gan adlewyrchu ar y sefyllfa, rwy’n teimlo’n flin ac yn drist na oedd disgybl X allu meddwl am ateb rhesymol, yn enwedig gan fod yr ateb “trên” wedi cael ei ailadrodd ddwywaith i'r un math o gwestiynau a ofynnwyd gan Athrawes A ac Athrawes B. O ran gwerthuso, fel y nodwyd yn Atodiad 5 roedd natur y cwestiwn a ofynnir gan Athrawes B yn gadarnhaol, gan ei fod wedi rhoi cyfle i'r disgyblion yn y dosbarth feddwl am eu dyfodol a'u llwybrau gyrfa posibl. Fodd bynnag, roedd natur y cwestiwn mor agored, manteisiodd disgybl X arno i geisio newid cyfeiriad y wers.

Mae yna lawer o resymau posibl pam y digwyddodd yr achos critigol yma. Fel y dywedwyd eisoes, y rhesymau posibl dros yr achos critigol yw'r broffwydoliaeth hunangyflawnol (Price, 2011), yn ogystal ag yr effaith Golem (Oz ac Eden, 1994). Hefyd, trafodwyd am y cysylltiad rhwng addysg ac amddifadedd (Chowdry et al., 2010). Gallai'r holl ffactorau hyn fod wedi bod yn cyfrannu ffactorau ynghylch pam yr atebodd disgybl X yn y ffordd y gwnaeth. O'r profiad yma, rwy'n teimlo fy mod i wedi dysgu efallai nad yw pob disgybl sy'n astudio Cyfnod

Allweddol 3 yn gwybod ba lwybr gyrfa i'w gymryd na beth maen nhw am ei wneud yn y dyfodol. Er bod dechrau lefel TGAU a Chyfnod Allweddol 4 gerllaw mewn gwirionedd, mae'n dal yn anodd gwybod beth i'w wneud yn y dyfodol yn 12 neu 13 oed. O hyn, rwyf wedi sylweddoli bod addysg a rôl athrawon yn ysgolion yn chwarae rhan fawr wrth gefnogi a sgaffaldio disgyblion ac oedolion ifanc i'w helpu i benderfynu beth i'w wneud ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol a sut i allu cyrraedd y pwynt yna.

Pe bai'r sefyllfa'n codi eto, byddwn i'n awgrymu y dylid herio'r ateb a roddodd disgybl X neu y dylid gofyn iddo ymhelaethu ar yr atebion y byddai'n eu rhoi. Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r athrawes gael synnwyr a dealltwriaeth glir o'r ateb a roddir a gallai'r posibilrwydd o ddeialog neu drafodaeth ddosbarth fod wedi codi o hyn. Llwybr arall y gellid fod wedi'i gymryd yw gellid bod wedi gofyn i'r disgyblion drafod eu hatebion mewn parau neu grwpiau. Yn y ffordd honno gallent fod wedi rhannu barn a meddyliau a rhoi gwahanol syniadau neu safbwyntiau i'w gilydd, i roi mewnwelediad i bob disgybl o farn pobl eraill ac o bosibl gynyddu eu hymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa posibl.

Casgliad

I gloi, mae'n amlwg mai'r achos critigol yw’r pwynt canolog yr aseiniad yma. Gan adlewyrchu ar beth ddywedodd Tripp (2012), mae yna dau gam i allu creu achos critigol, sef: i arsylwi digwyddiad, ac yna, i ddadansoddi’r digwyddiad yma. Cwblhawyd y ddau gam hyn i allu creu'r achos critigol yma. Yn gyntaf, arsylwyd pedair achos critigol yn Ysgol X, a ddangosir yn Atodiadau 1a i 4b. Yna, dewiswyd un i ganolbwyntio arno yn benodol am bwrpas yr aseiniad yma. Defnyddiwyd dwy elfen wahanol o arsylwi, megis arsylwi di-gyfranogwyr a hefyd chofnod ysgrifenedig ar ffurf nodiadau, a brofodd i fod yn llwyddiannus ac yn effeithiol.

Mae’n amlwg oedd yna gysylltiadau wedi ei greu rhwng yr achos critigol â dau o Bedwar Diben Donaldson (2015) gan bwysleisio bod disgybl X yn ddisgybl hyderus ac yn barod i greu perthnasoedd positif ag athrawon. Ymhellach, dadansoddwyd yr achos critigol gan adnabod y cysylltiadau rhwng yr achos critigol a’r ddau faes o lenyddiaeth. Y ddau brif feysydd o lenyddiaeth a archwiliwyd oedd y broffwydoliaeth hunangyflawnol, sydd hefyd yn gysylltiedig ag effeithiau Pygmalion a Golem, yn ogystal â'r berthynas rhwng cyrhaeddiad addysgol ac amddifadedd.

Gan ddefnyddio’r taflennau BWA (gweler Atodiadau 5 i 8) fel sail, a gan gyfeirio at gylch adfyfyrio Gibbs, roedd y broses o adfyfyrio yn hollbwysig. Roedd yn gyfle i allu adfyfyrio ar fy nheimladau, gan gynnwys hefyd beth fydd y camau nesaf. Yn ychwanegol, mae Safonau Proffesiynol yn pwysleisio pwysigrwydd o adfyfyrio, oherwydd mae adfyfyrio yn cyfrannu at ddysgu proffesiynol a welir ar draws Pedwar Diben Donaldson. Yn ôl Llywodraeth Cymru

(2019), mae yna pum safon benodol, sef: Addysgeg, Arweinyddiaeth, Proffesiynol, Arloesi a Chydweithredu. Pwrpas y Safonau Proffesiynol yw cefnogi athrawon, arweinwyr a chynorthwywr i allu darparu cefnogaeth a helpu athrawon addysgu hyd eithaf eu gallu. Felly, mae'n hollbwysig i bob athro i gadw'r rhain mewn cof wrth addysgu i sicrhau bod disgyblion a phobl ifanc yn cael yr addysg orau a'r dyfodol llwyddiannus o'u blaenau.

Atodiad 1a

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 26/09/19.

Manylion y wers:
- Dosbarth Blwyddyn 8.
- Gwers un
- Mentro.

Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)
Dydy pob dysgwyr ddim yn canolbwyntio ar ddysgu yn ystod y gwers, ond roedd mwyaf o'r ddosbarth yn.

Amcanion
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)
Doedd dim amcanion y wers wedi cael i gyfnewno ar ddechrau'r wers, ond roedd y disgyblion yn gweithio allan o lyfrynnau, sy'n awgrymu bod y gwers yn dilyn gwers blaenorol.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)
Roedd y brif tasg yn cynnwys darlunio llun o gi cartŵn, a oedd yn dilyn â fideo o sut i gnewi ci cartŵn yn hawdd. Nesaf, roedd raid i'r disgyblion darlunio llun o gi cartŵn eto, gan dangos gweithiant.

Mynediad a her
(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)
Roedd pob myfyriwr yn gallu dilyn y gwers. Roedd y gyfarwyddiadau yn glir i ddilyn i ddilyn.
yn gyntaf, yr oedd y myfyriwr wedi cael ei herio, ond ar ôl gwylio'r fideo, yr oedd wedi gwneud y weithgaredd yn fwy hawdd i ddilyn.

Atodiad 1b

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Trwy gydol y wers, roedd yr athrawes yn gofyn cwestiynau i'r dysgwyr i sicrhau ei dealltwriaeth, gan gynnwys, "ydy pawb yn iawn?", "ydy pawb yn deall?". Hefyd, roedd y dysgwyr yn dangos ei gwaith i'r athrawes gan daliad y gwaith i fyny.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Un enghraifft trawiadol yn ystod y gwers hyn, oedd ~~[illegible]~~ ar ddechrau'r gwers, gofynnodd yr athrawes i'r dysgwyr, "yn y pen draw, hoffwch weithio fel...". Roedd un disgybl, a byddai yn cyfeirio fel disgybl X, wedi ateb, "Dinosaur neu trên". Sylwais bod y sylwadau hynny wedi cael ei ddweud gan Disgybl X mewn gwers blaenorol arsylwais i, sydd yn awgrymu patrwm o'r syniad hyn.

Atodiad 2a

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 26/09/19

Manylion y wers:
- Dosbarth Blwyddyn 8
- Gwers 3 a 4
- Dylunio a Thechnoleg.

Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Mae mwyaf o'r dysgwyr yn canolbwyntio ar y wers, ond roedd mai dysgwyr wedi cael i wrthdynnu.

Amcanion
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd pwrpas clir i'r wers. Roedd yr amcanion dysgu wedi cael i gyflwyno mwy gydol y wers ac ar dolinead y wers. Roedd y weithgareddau yn cefnogi'r dysgu.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Rhoddodd yr athro cyfarwyddiadau glir mwy gydol y gwers, gan cwydro'r dosbarth, yn ychwanegol â defnyddio'r dwy o furddau gwyn i sicrhau dealltwriaeth.

Mynediad a her
(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd pob dysgwr yn gallu dilyn y wers, a roedd pob dysgwyr wedi cael ei herio. Roedd llawer o eitemau i'r wers, e.e. fideo, burddau gwyn, gweithio â citiau electronig, trafodaethau, ac yn olaf, gwaith annibynnol.

Atodiad 2b

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr gan defnyddio gwahanol dulliau, megis cwestiynau agoned a oedd yn dilyn â trafodaeth, trafodaethau grûp, ac yn olaf buurddau gwyn. Mae'r elfennau yma i gyd yn man o asesu ar gyfer dysgu.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

un enghraifft trawiadol yn ystod y gwers yw pan oedd y disgyblion yn defnyddio'r citiau electronig, roedd y gwaith wedi cael ei wneud mewn grupiau. Ewelais yn pob grûp, roedd un / dau disgybl fel arfer yn cymryd y cyfrifoldeb o gwblhau'r gwaith, Felly, roedd gweddill y grûp ddim yn gwneud gwaith. Mae hyn yn fater cymhwysol, ohenwydd nad oedd pob unegolyn yn cymryd man efo'r citiau electronig.

Atodiad 3a

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 02/10/19

Manylion y wers:
- Dosbarth Blwyddyn 8.
- Gwers un
- Tg. (Technoleg a gwybodaeth)

Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Roedd man ffwyaf o'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu, ond dau disgybl trwy gydol y wers.

Amcanion
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd pwrpas clir i'r wers, gan adeiladu ar gwybodaeth blaenorol. Roedd y gweithgaredd yn annog y dysgwyr i ymarfer y sgiliau yr ydynt wedi dysgu newn gwersi blaenorol.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Roedd y dysgwyr yn glir am beth mae nhw'n ei wneud: roedd yr athro wedi cymryd dros cyfrifiaduron pawb yn y dosbarth gydai sgrn ef, a dangos y dysgwyr beth i wneud o gam i gam.

Mynediad a her
(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers a roedd pob myfyriwr wedi cael ei herio - roedd llawer o fyfyriwr yn gofyn am gymorth yr athro sydd yn awgrymu oedd y tasg yn heriol.

Atodiad 3b

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Roedd yr athro yn asesu dealltuniaeth y dysgwyr gan gofyn cwestiynau i'r ddysgwyr, a hefyd yn cwmydro'r dosbarth i weld sut mae pob disgybl yn gwneud. Hefyd, ar ddiwedd y wers, roedd yr athro wedi mynd trwyddo'r atebion efo'r disgyblion, ac yn esbonio pam mae'r ateb yn cywir.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Un enghraifft trawiadol yn ystod y gwers yw ~~[illegible]~~ trwy gydol y gwers, sylwais roedd dau bachgen yn eistedd wrth ei gilydd, a doedd braidd dim gwaith wedi ei gwblhau hyndddon nhw. Roedd y bechgyn yn annog ei gilydd i gamymddwyn gan siaradi chwarae â pel droed o dan y desg, di hew gwaith ei gilydd ar y cyfrifiadur, ac yn fod yn afloyddgar yn ystod y gwers.

Atodiad 4a

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

Dyddiad: 02/10/19

Manylion y wers:
- Dosbarth Blwyddyn 8
- Gwers 2
- Gwyddoniaeth.

Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Roedd y dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu, er oedd y wers yn gwers ymarferol. Roedd y dysgwyr yn cyffrois i ddefnyddio'r offer gwyddoniaeth.

Amcanion
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Roedd pwrpas clir i'r wers; esboniodd yr athrawes nod y wers fu allan o'r dosbarth, felly oedd y dysgwyr yn ymwybodol cyn i'r wers dechrau.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Roedd y dysgwyr yn glir am beth i wneud o hennydd esboniodd a ddangosodd yr athrawes i'r dysgwyr beth i wneud. Roedd maid iddyn nhw gwneud arbrawf gwyddonol ac i gofnodi'r canlyniadau.

Mynediad a her
(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers a gaiff pob myfyriwr ei herio. Roedd maid sicrhau lechyd a diogelwch o hennydd oedd llosgyddion Bunsen yn man o'r arbrawf.

Atodiad 4b

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Roedd yr athrawes yn asesu dealltwriaeth y dysgwyr gan cnuydro'r dosbarth i sicrhau bod pawb yn iawn. Hefyd, roedd y cyfarwyddiadau wedi cael i gyflwyno o gam i gam, felly os oedd unrhyw cwestiynau, roedd llawer o gyfleoedd i'r ddysgwyr i ofyn.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Un enghraifft o achos trawiadol yn ystod y gwers, sydd yn seiliedig ar un grwp penodol yw pan oedd yr athrawes wedi clynnu y llosgydd Bunsen, roddodd yn bachgen ei law ar y dân pan oedd yr athrawes ar ochr arall y dosbarth. Ar y pwynt yma, teimlais roedd raid i mi ymyrryd ar sail iechyd a diogelwch, ac i atgoffa'r disgybl i fod yn synhwyrol.

Atodiad 5

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus)*: Disgybl X yn ateb "Dinosaur neu trên"

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	ynghylch y profiad yma, teimlais yn siwmedig yn yr ateb, yn ychwanegol â flin, oherwydd roddodd yr amrawes cyfle i'r disgybl i mynu ei deheadau and nad oedd wedi hyd yn oed meddwl amdana
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	Mae'r achos cringoi yma yn cysylltu â phedwar dubert Donaldson, megis 'Disgwyliadau uchel a dyheadau' yn ychwanegol â'r cysylltiad rhung amddifadedd a chymaeddiad addysgol.
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Gellir cadw yr un fath natur y cwestiwn ar y cyfan, oherwydd mae'n glir roedd diddordeb â'r amrawon am gynllun y disgyblion yn y dyfodol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	yn y camau nesaf, mae'r atebion posibl yn cynnwys henio'r ateb roddodd y disgybl, ac i ofyn "pam?" i'r ateb roddodd. Bydd maid gofyn cwestiynau ychwanegol iddo i ddeall nod yr ateb.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Atodiad 6

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus)*: Nad oedd pob disgybl yn cymryd man.

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	ynghylch y profiad yma, teimlais yn flin i'r disgyblion a doedd dim yn gwblhau gwaith, ohenwydd nad oedd digon o gitiau electronig am pob unigolyn
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	Mae'n lleihau cymhwysiad pob disgybl yn y dosbarth achos nad oedd pawb wedi cael y cyfle i ddefnyddio'r citiau electronig.
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	O man adnoddau, gellir dal defnyddio'r citiau electronig ohenwydd oedd y disgyblion yn fwynhau'r tasg, ond gellir moi tasg ychwanegol i'r disgyblion nad oedd yn cymryd man, a wedyn cyfnewid.
Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Mae atebion posibl yn cynnwys: 1. Buddsoddi yn mewn mwy o gitiau electronig. 2. Rhannu'r disgyblion i gwblhau 2 tasg ar yr un pryd e.e. un pâr yn defnyddio'r citiau electronig, ar pâr arall yn darlen/ysgrifennu.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Atodiad 7

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*: 02/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus)*: 2 disgybl dim yn canolbwyntio.

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	ynghylch y profiad yma, teimlais yn rhwystredig yn erbyn diwedd y wers ohenwydd nad oedd y disgyblion wedi gwneud unrhyw gwaith o gwbl.
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	ymddygiad y disgyblion. nad oedd yn ganolbwyntio, yn ogystal â theolaeth dosbarth, ond ar y llaw arall roedd y disgyblion eraill ar dasg.
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Gwnaeth yr athro defnyddio'r thema cwpan y byd i ddenu diddordeb a chyfranogiad y ddisgyblion, ond gellir defnyddio cynllun eistedd i sicrhau disgyblaeth a dysgu effeithiol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Mae'r atebion posibl yn cynnwys cneu cynllun eistedd i'r dosbarth, gan sicrhau bod y disgyblion dim yn eistedd nesaf i unigolyn a bydd yn effeithio'r dosbarth a'r dysgu / addysgu.
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Atodiad 8

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/*Date*: 02/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus)*: Disgybl wedi moi ei law mewn llosgydd Bunsen.

Profiad/ *Experience*	
Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"*	ynghylch y profiad yma, teimlais yn gofid am y disgybl yn nhermau lechyd a diogelwch, yn ogystal â dig oherwydd gallodd y disgyblu i anafu ei hunan yn difrifol.
Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"*	- ymddygiad y disgybl. - lleoliad yr athrawes. - Rheolaeth dosbarth ar y cyfan. - lechyd a diogelwch
Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"*	Chedaf fod cynnwys y gwers yn addas am ddysgu'r disgyblion, ond ar y llaw arall, byddaf yn sicrhau bod o leiaf un aelod o staff / cynorthwyydd yn y dosbarth.
Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"*	Mae'r atebion posibl yn cynnwys cael mwy o aelodau staff yn y dosbarth yn ystod arbrofau gwyddonol, neu i gael yr athrawes i wneud yr ymarfer yn unig a mae'r disgyblion yn arsylwi
Y profiad newydd / *Transformed experience*	

Llyfryddiaeth

Basit, N. (2010) *Conducting Research in Educational Contexts*. Llundain: Continuum.

Berry, R. (2004) *The Research Project.* Llundain: Routledge.

British Educational Research Association [BERA]. (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research.* 4ydd Arg. Llundain.

Cohen et al. (2011) *Research Methods in Education.* 7fed Arg. Llundain: Routledge.

Chowdry et al. (2010) *Poorer Children's Educational Attainment: how important are attitudes and behaviour.* Ar gael: https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/poorer-children-education-full.pdf (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).

Dawson, C. (2009) *Introduction to research methods.* 4ydd Arg. Rhydychen: How to Content.

Elliot, J. a Shepherd, P. (2006) 'Cohort Profile: 1970 British Birth Cohort (BCS70)', *International Journal of Epidemiology.* Cyf 35. Arg 4. tt.836-843. Ar gael: https://doi.org/10.1093/ije/dyl174 (Darllenwyd: 14 Hydref 2019).

Geiriadur Caegrawnt, *Meaning of Deprivation in English.* Ar gael: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/deprivation (Darllenwyd: 10 Hydref 2019).

Hargreaves, J. a Page, L. (2013) *Reflective Practice.* Caergrawnt: Polity Press.

Joshi, K. (2018) *Critical Incidents for Teachers' Professional Development. Journal of NELTA Surkhet.* Arg 5. Ar gael: file:///C:/Users/Celyn/Downloads/19493-Article%20Text-62398-1-10-20180328%20(3).pdf (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Leitch, R. a Day, C. (2000) 'Action research and reflective practice: towards a holistic view, Educational Action Research', 8:1, tt.179-193. Ar gael: https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/09650790000200108 (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).

Loughran, J. (1996) *Developing Reflective Practice: Learning About Teaching And Learning Through Modelling.* Llundain: Falmer Press.

Llywodraeth Cymru (2014) *Ailysgrifennu'r Dyfodol.* Ar gael: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ailysgrifennu%E2%80%99r-dyfodol-codi-uchelgais-a-chyrhaeddiad-yn-ysgolion-cymru.pdf (Darllenwyd: 14 Hydref 2019).

Llywodraeth Cymru (2018) *Fy Ysgol Leol.* Ar gael: http://mylocalschool.gov.wales/[redacted] (Darllenwyd: 25 Medi 2019).

Llywodraeth Cymru (2019) *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.* Ar gael: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/9c/06/b9/58/b1ca47568dafc2dbaea3942b/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf (Darllenwyd: 21 Hydref 2019).

McGregor, D. a Cartwright, L. (2011) *Developing Reflective Practice.* Maidenhead: Open University Press.

Oz, S. a Eden, D. (1994) 'Restraining the Golem: Boosting Performance by Changing the Interpretation of Low Scores', *Journal of Applied Psychology.* 79fed Arg. tt. 744-754. Ar gael: https://web-b-ebscohost-

com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=24950df7-f343-4a07-ad1e-3d44809dde3d%40sessionmgr103 (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).

Price, A. (2011) *Introducing Psychology of Success*. Llundain: Icon Books.

Prifysgol Bristol, *Avon Longitudinal Study of Parents and Children.* Ar gael: http://www.bristol.ac.uk/alspac/ (Darllenwyd: 15 Hydref 2019).

Tomer, R. a Agrawal, A. (2014) *Effect of Parental Deprivation on Self Confidence of Adolesencts.* The International Journal of Indian Psychology. Cyf 2. Arg 1. Ar gael: https://pdfs.semanticscholar.org/77c3/128c5cdf82d84ef1045050efe4bef9cb26e3.pdf (Darllenwyd: 11 Hydref 2019).

Tripp, D. (2012) *Critical Incidents in Teaching*. Llundain: Routledge.

White, S. a Edwin, A. (2000) *Problems with the pygmalion effect and some proposed solutions.* Ar gael: https://www-sciencedirect-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/science/article/pii/S1048984300000461 (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).